

Crynodeb o'r Ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Bil yr Amgylchedd

Atodiad 1 – Gwybodaeth am ddigwyddiadau ymgynghori

Cyhoeddwyd Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd at ddiben ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru ar 23 Hydref am gyfnod o ddeuddeg wythnos. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 15 Ionawr 2014. Cafodd gwybodaeth am gyhoeddi'r Papur Gwyn ei hanfon at dros 1000 o randdeiliaid drwy e-fwletin Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru, a chafodd hysbysiad i'r wasg ei gyhoeddi gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

Cafodd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori eu cynnal ar y Papur Gwyn, gan gynnwys cynhadledd fawr ar y rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol. Rhoddwyd cryn sylw i'r Bil yn y gynhadledd hon. Cafodd gwybodaeth am y gynhadledd a'r digwyddiadau rhanbarthol ei chyhoeddi drwy e-fwletin Rheoli Adnoddau Naturiol.

Cynhadledd y Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol – 25 Tachwedd 2013

Daeth dros 150 o unigolion blaenllaw o wahanol sectorau ar draws Cymru, y DU ac Ewrop ynghyd er mwyn trafod dull arfaethedig Llywodraeth Cymru o reoli adnoddau naturiol. Cafwyd cyflwyniadau ar Fil yr Amgylchedd, a chynhaliwyd gweithdai â'r holl gynrychiolwyr ar y dull ar sail ardal sy'n cael ei gynnig. Defnyddiwyd technoleg MeetingSphere ar gyfer cofnodi canfyddiadau'r gweithdai hyn. Anfonwyd adroddiad adborth at yr holl gynrychiolwyr ar 16 Rhagfyr, a oedd yn cynnwys trawsysgrif o'r holl sylwadau a dderbyniwyd ynghylch y cyflwyniadau ar y Bil a'r gweithdai. Roedd yr adborth ar y gynhadledd yn bositif iawn. Cafodd gweithdai eraill eu cynnal yn ystod y gynhadledd ynghylch cynigion allweddol eraill y Bil, gan gynnwys taliadau am wasanaethau ecosystem, gweithredu'r dull ar sail ardal a'r cynigion ynghylch ailgylchu gwastraff.

Digwyddiadau Rhanbarthol

Cynhaliwyd cyfres o weithdai ar draws Cymru lle y gwahodwyd cynrychiolwyr o sectorau amrywiol iawn i ystyried mewn manylder gynigion y Papur Gwyn ar reoli adnoddau naturiol, ac yn arbennig o ran y dull ar sail ardal (pennod 2) a dulliau newydd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (pennod 3).

Lleoliad	Dyddiad	Nifer yn bresennol
Merthyr Tudful	2 Rhagfyr 2013	Tua 45
Aberystwyth	4 Rhagfyr 2013	Tua 30
Cyffordd Llandudno	9 Rhagfyr 2013	Tua 40
Caerdydd	10 Ionawr 2014	12

Defnyddiwyd technoleg MeetingSphere mewn rhai o'r digwyddiadau er mwyn cofnodi'r sylwadau. Cafodd crynodeb o'r trafodaethau ei anfon at bawb a oedd yn bresennol.

Sesiynau ymgysylltu eraill

Cafodd sesiynau ymgysylltu penodol hefyd eu cynnal yn ystod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Er enghraifft, cafodd y cynigion ynghylch gwastraff eu trafod yng nghynhadledd Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) ar 14 Tachwedd. Daeth tua 50 o gynrychiolwyr o wahanol fusnesau a diwydiant i'r gynhadledd hon. Mae trafodaethau bord gron hefyd wedi'u cynnal â chynrychiolwyr gan gynnwys Cyngor Adnewyddu'r Economi a Commerce Cymru, Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru, y Ffederasiwn Busnesau Bach, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Gymdeithas Siopau Cyfleustra a Chonsortium Manwerthu Cymru / Consortium Manwerthu Prydain.

Mae'r gwaith ymgysylltu â sefydliadau unigol eraill ynghylch y cynigion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol wedi cynnwys trafodaethau â Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a CNP Cymru a'r Pwyllgor Diogelu Iechyd. Cynhaliwyd gweithdy yn ogystal â Chymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU ym mis Ionawr 2014 er mwyn trafod cynigion allweddol y Papur Gwyn.